Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr
St Albans Road,
Brynmill,
Swansea,
SA2 0BP
01792 466354
ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk
www.yggbrynymor.co.uk

- News
- Events
- Highlights

YSGOL GYMRAEG
BRYN-Y-MÔR

# Cylchlythyr Bryn-yMôr

## Bocsys Esgidiau i Romania

Yn ystod y tymor casglwyd eitemau a theganau ynghyd i'w rhoi mewn bocsys 'sgidiau i blant anghenus yn Romania. Dyma aelodau o'r Cyngor Ysgol yn mynd â'r bocsys i Eglwys Pantygwydr ym mis Tachwedd.




## Côr yr ysgol

Diolch yn fawr i aelodau côr yr ysgol am eu rhan yng nghyngerdd Cerddorfa Philarmonia Abertawe yn Eglwys y Santes Fair a gwasnaeth Carol Aid yn Eglwys Pantygwydr. Perfformiad gwych gan bawb!




## Banc Bwyd

Yn ystod y tymor yr ydym wedi bod yn casglu bwyd i'r banc bwyd lleol yn ogystal â chasglu bwydydd a nwyddau arbennig ar gyfer y Nadolig. Dengys ystadegau ac adroddiadau ar y newyddion bod mwy a mwy o unigolion a theuluoedd yn ddibynnol ar fanciau bwyd. Mae'n bwysig i ni fel ysgol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl yn ein cymunedau. Diolch o galon i bawb felly sydd wedi cyfrannu.




## Gwirfoddolwyr

**DIOLCH YN FAWR** i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi bod yn helpu yn ystod y tymor. Yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr.

## CRhA

**Diolch yn fawr iawn i Cath Davies am ei gwasnaeth a'i hymroddiad i'r CRhA dros y blynyddoedd diwethaf . Dymuniadau gorau hefyd i Louise Davies sydd wedi ei hethol yn gadeirydd newydd. Dymunwn yn dda iddi yn ei rôl. Codwyd cyfanswm o £2341.19 yn y Ffair Nadolig! Diolch i bawb am eu cefnogaeth barod.**

## Presenoldeb

Yn ystod y tymor cadarnaodd Llywodraeth Cymru mai canran presenoldeb yr ysgol ar gyfer **2017-18** oedd **95.9%** sy'n rhoi'r ysgol yn yr **ail chwartel.** Er bod presenoldeb yn dda y mae lle i wella ymhellach a gofynnwn am eich cefnogaeth gyda hyn. Presenoldeb yr ysgol ar hyn o bryd yw **96.5%** sy'n galanogol iawn.

### Hwyrni

Yn ystod 2017-18 gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd yn hwyr.

Gofynnwn am eich cefnogaeth yn hyn o beth er mwyn sicrhau bod nifer y disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn lleihau ac yn cael y dechrau gorau i'r dydd.

## Deffibriliwr

Mae 'elusen 'Round Table' Abertawe wedi cyfrannu deffibriliwr i gymuned yr ysgol. Bydd yn cael ei osod ym mis Ionawr a bydd hyfforddiant yn cael ei

## Gwneud gwahaniaeth

Diolch i bob un sydd wedi cyfrannu at elusennau a mudiadau gwirfoddol yn ystod y tymor.

**Fabric -** £50.00

**Plant mewn Angen** £263.00

**Y Gymdeithas Mutiple Sclerosis** - £250.00

**Shelter Cymru** - £250.00

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr
St Albans Road,
Brynmill,
Swansea,
SA2 0BP
01792 466354
ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk
www.yggbrynymor.co.uk

- Newyddion
- Digwyddiadau
- Uchafbwyntiau

# Cylchlythyr Bryn-y-Môr

## Ymweliadau ac Ymwelwyr









**NADOLIG LLAWEN**

**Ar ran pawb yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iawn i chi gyd .**

**Tymor yn dechrau: 07.01.19**

**HMS: 22.02.19**

## Cyngor Ysgol a Phwyllgorau

Mae'r Cyngor Ysgol a'r pwyllgorau eraill wedi bod yn brysur iawn yn ystod y tymor. Bu'r Cyngor Ysgol yn rhan o ymgyrch 'Y Sgwrs Fawr' a drefnwyd gan Cyngor Abertawe. Roedd cyfle i blant leisio barn ar bynciau sy'n berthnasol iddynt hwy er enghraifft byw yn dda a gweithio gyda byd natur a'r amgylchedd.



